

Bwletin Rheoli Adnoddau Naturiol

Natural Resource Management Bulletin



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rhifyn 16 – Hydref 2014

Y Panel Cyngori ar y Strategaeth Goetiroedd



Mae Llywodraeth Cymru am benodi aelodau i'r Panel Cyngori ar y Strategaeth Goetiroedd ar gyfer Cymru.

Mae tymor presennol y Panel Cyngori ar y Strategaeth Goetiroedd (WSAP) yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2014.

Swyddogaeth WSAP yw gweithredu fel grŵp rhanddeiliaid anffurfiol i helpu Tîm Polisi Coedwigaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi coedwigaeth yng Nghymru, a monitro'r broses o gyflawni Strategaeth Coedwigaeth Cymru. Mae'r Strategaeth ar gael ar <http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-7GDE8V>

Wrth i'r panel fynd ati i gynnig cyngor, bydd gofyn iddo gynrychioli'r sectorau a fydd yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu polisi eang ar goetiroedd - polisi a fydd yn cefnogi meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, fel y'u nodir isod. Bydd angen hefyd, wrth roi cyngor ar goetiroedd, wneud hynny yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol ac yng nghyd-destun mynd i'r afael â'r agenda dlodi.

- Economaidd – gan ganolbwyntio ar gynyddu'r cyfraniad y mae coedwigaeth yn ei wneud i'r economi yng Nghymru trwy greu swyddi cynaliadwy, gwella sgiliau a darparu cyfleoedd hyfforddi.

- Amgylcheddol – canolbwyntio ar y berthynas rhwng coed a dŵr, amaethyddiaeth a datblygu ynni carbon isel
- Cymdeithasol – gan ganolbwyntio ar alluogi pobl i gael mwy o fanteision iechyd ac addysgol o goetiroedd
- Amrywiaeth a Chydnerthedd - gan ganolbwyntio ar gael mwy o amrywiaeth yn yr ystâd goed yng Nghymru (cyhoeddus a phreifat) i hybu bioamrywiaeth a chydnerthedd.

Er mwyn adlewyrchu'r pedwar maes y canolbwyntir arnynt uchod, bydd panel o rhwng 12 ac 16 o bobl yn cael ei benodi, ond mae'r nifer terfynol yn dibynnu ar arbenigedd yr ymgeiswyr. Mae'n bosibl bod gan yr ymgeiswyr wybodaeth a phrofiad mewn mwy nag un o'r meysydd uchod a bydd hynny'n cael ei ystyried wrth wneud y penodiadau er mwyn penodi'r panel cryfaf posib. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn aelod o'r panel, cyflwynwch ddatganiad personol yn ogystal â CV at Jayne Sherrard ar: Jayne.sherrard@wales.gsi.gov.uk Y dyddiad cau yw **8 Rhagfyr 2014**.

Meysydd eraill o ddiddordeb

Cymru'n ailgylchu mwy ac yn anfon llai i safleoedd tirlenwi



Mae'r ffigurau ailgylchu diweddaraf yn cadarnhau bod Cymru'n ailgylchu mwy nag erioed, gyda 54.3% o wastraff trefol yn cael ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yn 2013-2014.

Wrth fynd ati i ailgylchu, mae Cymru ar flaen y gad a chanddi hi mae'r ystadegau gorau yn y DU. Mae awdurdodau lleol ac aelwydydd yn ailgylchu mwy ac yn anfon llai o wastraff i'r safleoedd tirlenwi.

I gael y manylion yn llawn am ystadegau ailgylchu Cymru, ewch i <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/local-authority-municipal-waste-management/?lang=cy>

Y Gweinidog yn gweld Conwy yn llwyddo wrth ailgylchu

Yn ddiweddar, bu Carl Sargeant, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn ymweld â safle storio gwastraff Gofer yng Nghonwy. Cafodd gwrdd â'r staff a gweld system newydd lle y caiff bocsys ailgylchu eu stacio. Mae system Trolibocs yn cynnwys tri bocsys sy'n stacio gyda'i gilydd ar droli y gellir ei symud er mwyn iddo gael ei gasglu.

Conwy yw'r cyngor cyntaf yn y DU i ddefnyddio'r system a bydd y Trolibocs yn helpu tîm yr amgylchedd i gasglu mwy o ddeunydd i'w ailgylchu sydd o ansawdd da. Drwy wahanu'r deunydd yn y bocsys, bydd mwy o ddeunyddiau yn gallu cael eu hailgylchu yng Nghymru; bydd hyn yn creu rhagor o fuddiannau i economi Cymru.

Bu Cyngor Conwy'n gweithio â WRAP Cymru a Llywodraeth Cymru i dreialu'r cynllun a thalwyd am y bocsys gyda grant drwy Raglen Newid Gydweithredol Llywodraeth Cymru.

www.wrapcymru.org (dolen allanol)

€4.1 miliwn i hybu Cig Oen ag Eidion Cymru yn Ewrop o'r diwydiant llaeth yn mynd i gael ei gynnal

Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, wedi croesawu €4.1 miliwn o hwb ariannol fydd yn helpu i hybu cig oen ag eidion Cymru ymhellach ar draws Ewrop.

Hybu Cig Cymru – gwnaeth Hybu Cig Cymru gais i fod yn rhan o raglen y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer hybu cynnyrch amaethyddol. Drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru mae cais Hybu Cig Cymru wedi bod yn llwyddiannus.

Caiff y rhaglen tair blynedd ei chyllido ar y cyd gan Ewrop. Bydd Hybu Cig Cymru yn cael €4.1 miliwn ychwanegol - sef ychydig dros £3,214,000 ar gyfer hybu cig oen a chig eidion Cymru yn yr Almaen a'r Eidal, ac er mwyn hybu cig oen Cymru yn Nenmarc a Sweden.

Paratowch i Dyfu'n Wylt

Mae gan Tyfu'n Wylt filoedd o becynnau hadau am ddim i'w rhannu er mwyn i bobl gael gweddnewid eu llecynnau lleol yn hafanau blodau gwyllt hardd a lliwgar sy'n ysbrydoli. Mae Tyfu'n Wylt yn cael ei gefnogi gan y [Gronfa Loteri Fawr](#) a'i arwain gan [Erddi Botaneg Brenhinol, Kew](#). Mae'n rhaglen bedair blynedd gyffrous i ddod â phobl at ei gilydd i hau [blodau gwyllt brodorol y DU](#). Mae Tyfu'n Wylt yn credu y gallwn, gyda'n gilydd, weddnewid a dod â lliw i'r mannau lle rydym ni'n byw: gan droi llecynnau nad oes neb yn gofalu amdany'n nhw'n noddfa i flodau a bywyd gwyllt.

Ymunwch ag un o'r ymgyrchoedd hau hadau mwyaf erioed yn y DU a helpwch i greu dros filiwn o fetrau sgwâr o flodau gwyllt yng ngwanwyn 2015.

Cofrestrwch heddiw i dderbyn hadau blodau gwyllt sy'n frodorol i'ch gwlad i'w rhannu â phobl yn eich grŵp/grwpiau ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys clybiau gweithgaredd, cymdeithasau, gweithleoedd, ysgolion a chymdogaethau

Mae dros 120,000 o becynnau am ddim ar gael (6,000 ung Nghymru) a'r cwbl sydd angen i chi ei wneud i gofrestru ar ran grŵp/grwpiau yw llenwi ffurflen dau funud syml Tyfu'n Wyllt yn <https://www.growwilduk.com/cy/pecyn-hadau?partnerid=e6054030> (dolen allanol)

Daw'r cyfnod cofrestru i ben am hanner nos ar 14 Chwefror 2015 a bydd y pecynnau'n cael eu hanfon tua diwedd mis Mawrth, mewn pryd ar gyfer eu hau yn y gwanwyn.

A fydddech gystal â rhannu'r ddolen we hon ar gyfer cofrestru gyda grwpiau eraill yr ydych yn gwybod amdanynt a fyddai o bosib yn hoffi ymuno hefyd.

Ffliw adar - annog pobl sy'n cadw dofednod yng Nghymru i fod yn wylidwrus

Wedi i achosion o fflw adar gael eu cadarnhau yn Lloegr, mae pobl sy'n berchen ar ddofednod yng Nghymru yn cael eu hannog i gadw llygaid ar eu hadar.

Ar 16 Tachwedd, gwnaeth Prif Swyddog Milfeddygol y DU gadarnhau achos o fflw adar pathogenigaidd iawn ar fferm bridio hwyaid yn Nwyrain Swydd Efrog. Mae'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn annog pobl sy'n berchen ar ddofednod yng Nghymru i fod yn wylidwrus ac i roi gwybod i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (AHVLA gynt) yn lleol.

Mae'r symptomau yn cynnwys; problemau anadlu, dolur rhydd, llai o wyau yn cael eu dodwy, colli chwant bwyd a gwddf a llwnc glas.

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar yr achos, ewch i: <https://www.gov.uk/avian-influenza-bird-flu>

Dŵr Ymdrochi yng Nghymru yn derbyn y dosbarth uchaf

Mae canlyniadau ansawdd dŵr ymdrochi yng Nghymru yn dangos bod mwy o ddŵr ymdrochi nag erioed o'r blaen wedi bodloni'r safonau Ewropeaidd uchaf.

O'r 102 o ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru, roedd 90 yn cyrraedd y safon Ewropeaidd Gorfodol. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos ansawdd gwych y dyfroedd ymdrochi y gall pobl Cymru yn ogystal ag ymwelwyr ei fwynhau.

Mae ystadegau dŵr ymdrochi yng Nghymru'n cael eu cymryd o samplau gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheolaidd yn ystod y tymor ymdrochi (15 Mai i 30 Medi) ac yn cael eu cadarnhau gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Mynnwch yr wybodaeth ddiweddaraf

I ddysgu mwy am y rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol, ewch i: [Rhedi Adnoddau Naturiol](#)

Mae'r tudalennau gwe yn cynnwys [Cwestiynau Cyffredin](#), [pecyn gwybodaeth](#) a rhai [astudiaethau achos](#).

Gallwch hefyd ddysgu am y datblygiadau diweddaraf ar Facebook a Twitter trwy ddilyn @WG_NatResMin a hoffi tudalen Facebook Llywodraeth Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ymuno â'r rhestr bostio, e-bostiwch ni ar naturalresourcemanagement@wales.gsi.gov.uk